dmasigns

# Arwyddion i Gerddwyr yn Sir Conwy - Cam 1

## Cwmpas y Prosiect

## Adalw Gwybodaeth

Diwygiad 1



Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
clare.sharples1@conwy.gov.uk

# Cwmpas y Prosiect

Adolygu, symud, atgyweirio, cynhyrchu a gosod arwyddion cyfeirio i gerddwyr mewn 4 tref flaenoriaeth yn Sir Conwy

Mae'r prosiect hwn wedi'i gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) trwy gyllid Y Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru.

Nod ac amcanion yr arwyddion cyfeirio yw:

- Rhoi gwybodaeth ddwyieithog, gyfredol mewn ffordd glir a hygyrch

- Cyfeirio ymwelwyr i amrywiaeth o leoliadau ac atyniadau yn y trefi

Bydd y prosiect hwn yn adolygu'r arwyddion cyfeirio presennol i gerddwyr ac yn creu archwiliad o'r holl arwyddion cyfeirio ym mhedair o'n trefi blaenoriaeth. Mae hyn yn helpu i gyfeirio ymwelwyr i wahanol leoliadau yn y trefi yn ogystal â chynnal disgwyliadau ymwelwyr drwy ddarparu gwybodaeth gyfredol a safonol sydd wedi'i gyflwyno'n dda. Dylai awgrymiadau am leoliadau newydd ar gyfer arwyddion cyfeirio hefyd gael eu cynnwys yn yr archwiliad pan fo'n berthnasol.


© DMA Signs Limited

# Cwmpas y Prosiect

Bydd y comisiwn yn dilyn y broses isod:

Cam 1. Gweithio'n agos â Swyddogion Twristiaeth ac Adfywio CBSC i adolygu'r arwyddion cyfeirio presennol i gerddwyr yn Llandudno, Llanrwst, Bae Colwyn ac Abergele.

Cam 2. Ymgynghori â chymunedau a grwpiau busnes lleol i nodi tystiolaeth o angen am arwyddion newydd nad ydynt ar arwyddion cyfeirio ar hyn o bryd.

Cam 3. Cynhyrchu adroddiad archwilio yn manylu ar leoliadau arwyddion cyfeirio presennol yn ein pedair tref flaenoriaeth, yn ogystal ag awgrymiadau o leoliadau ar gyfer arwyddion newydd ac unrhyw arwyddion unigol y mae angen eu gosod / cael gwared arnynt.

Cam 4. Cynhyrchu dogfen fyw yn cynnwys manylion lleoliadau pob arwydd cyfeirio yn ein pedair tref flaenoriaeth. Bydd y ddogfen fyw hon mewn fformat sy'n rhwydd ei diweddaru fel bod Swyddogion Twristiaeth ac Adfywio yn gallu ei diweddaru yn y dyfodol yn ôl y gofyn. Bydd hefyd yn helpu swyddogion i nodi lleoliadau lle mae arwyddion presennol wedi'u gosod.

Cam 5. Cael gwared ar arwyddion cyfeirio nad ydynt yn gyfredol yn y pedair tref, fel y nodwyd yn yr archwiliad.

Cam 6. Gosod arwyddion cyfeirio newydd a dwyieithog yn ôl y gofyn yn y pedair tref, fel y nodwyd yn yr archwiliad.

Noder y bydd camau 5 a 6 yn cael eu hadolygu a bydd y camau'n cael eu cytuno arnynt, yn dibynnu ar ofynion yr arwyddion a gymeradwywyd.

 Unit 6, Bridge Works, Kingston Road, Leatherhead, Surrey KT22 7SU Tel +44 (0)1372 363808 Fax +44(0)1372 363801 email: sales@dmasigns.co.uk © DMA Signs Limited

# Cwmpas y Prosiect

Arwyddion cyfeirio presennol

Bydd arolwg yn cael ei gynnal i nodi a chofnodi lleoliadau, cyflwr a chynnwys arwyddion cyfeirio presennol yn y 4 tref.

O'r data sydd ar gael, mae nifer yr arwyddion presennol fel a ganlyn:

Llandudno: 26 o arwyddion â chyfartaledd o 10 bys ar bob arwydd
Llanrwst: 5 arwydd â chyfartaledd o 4 bys ar bob arwydd
Bae Colwyn: 5 arwydd â chyfartaledd o 4 bys ar bob arwydd
Abergele: Ni chafodd unrhyw arwyddion eu nodi

Ni ydym yn gwybod beth yw union oedran yr arwyddion presennol, er hynny, cafodd arwyddion cyfeirio Llanrwst eu hailwampio yn 2019.

Mae'r adborth a gafwyd ar yr arwyddion cyfeirio presennol fel a ganlyn:
- Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r arwyddion yn edrych yn hen ffasiwn ac mewn cyflwr gwael yn gyffredinol o ganlyniad i'w hoedran a'u dyluniad.
- Mae angen diweddaru'r wybodaeth ar yr arwyddion gan nad yw'r rhan fwyaf wedi cael eu hadolygu ers llawer o flynyddoedd.
- Mae bysedd ar yr arwyddion weithiau'n cael eu symud i bwyntio i'r cyfeiriad anghywir, felly byddai angen i arwyddion newydd sicrhau bod bysedd yn ddiogel.
- Nid oes unrhyw farcwyr pellter nac amser cerdded ar yr arwyddion, felly mae deall y pellter i leoliadau yn broblem.
- Prin iawn yw'r ddarpariaeth o ran llwybrau hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn.
- Mae angen i'r wybodaeth fod yn fwy penodol ar gyfer ymwelwyr/twristiaid.


© DMA Signs Limited

# Cwmpas y Prosiect

Meini prawf ar gyfer yr arwyddion cyfeirio newydd neu wedi'u diweddaru:

· Atyniadau i ymwelwyr – Lle o ddiddordeb y mae twristiaid yn ymweld ag ef fel arfer, o ganlyniad i'w harddwch naturiol neu adeiledig, neu am y cyfleusterau hamdden ac adloniant mae'n ei gynnig.

· Asedau diwylliannol neu dreftadaeth – Lle o ddiddordeb i dwristiaid, fel arfer o ganlyniad i'w werth diwylliannol sy'n rhan annatod ohono neu ei arwyddocâd hanesyddol.

· Pentrefi / canolfannau siopa - casgliad o siopau a/neu wasanaethau manwerthu annibynnol.

Sylwch: Ni allwn gynnwys busnesau unigol ar arwyddion cyfeirio oni bai eu bod nhw'n atyniad i ymwelwyr,
atyniad diwylliannol neu'n ased treftadaeth. Mae hyn er mwyn atal yr arwyddion cyfeirio rhag llenwi'n ormodol a'u gwneud nhw'n anodd I dwristiaid eu dilyn.

Bydd pob bys yn cynnwys y Gymraeg ac yna'r Saesneg mewn maint a thrwch cyfartal.

Bydd arwyddion yn cynnwys symbolau y gellir eu hadnabod yn syth.


© DMA Signs Limited

# Cwmpas y Prosiect

Enghreifftiau o arwyddion cyfeirio presennol














© DMA Signs Limited

# Rhagor o wybodaeth

Enghreifftiau o arwyddion cyfeirio canol trefi a pharciau eraill er gwybodaeth











© DMA Signs Limited

# Adalw Gwybodaeth

Mae mapiau o'r pedair tref ar y tudalennau canlynol.

Er mwyn sicrhau bod yr arwyddion cyfeirio yn cynnwys cyfarwyddiadau defnyddiol sy'n cynnwys gwybodaeth, rydym ni wedi plotio atyniadau i dwristiaid a phwyntiau o
ddiddordeb y byddai ymwelwyr efallai'n dymuno cael eu cyfeirio atynt.

Mae gan bob un system grid ac mae pob map yn wynebu'r gogledd.

Diben hyn yw cynnig fforwm agored sy'n rhoi cyfle i fusnesau lleol a grwpiau budd-ddeiliaid perthnasol
fynegi eu barn ar yr hyn y dylai gael ei gynnwys a'r hyn na ddylai gael ei gynnwys ar yr arwyddion cyfeirio.

Rydym ni'n croesawu sylwadau cyn, yn ystod ac ar ôl y cyflwyniadau. Bydd hyn yn caniatáu i bawb fynegi eu barn cyn i benderfyniadau addysgedig gael eu gwneud, fel bod y prosiect yn gallu symud i'r cam nesaf, pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch cynnwys, lleoliadau a dyluniad yr arwyddion (ailwampio rhai presennol neu osod arwyddion newydd yn lle'r hen rai).


Unit 6, Bridge Works, Kingston Road, Leatherhead, Surrey KT22 7SU Tel +44 (0)1372 363808 Fax +44(0)1372 363801 email: sales@dmasigns.co.uk
© DMA Signs Limited

# Adalw Gwybodaeth

Pwyntiau i'w hystyried:

- Mae arwyddion cyfeirio at ddefnydd cerddwyr ac nid pobl sy'n gyrru cerbydau.

- Nid ydym yn argymell bod mwy na 24 o fysedd yn cael eu rhoi ar unrhyw arwydd cyfeirio. Mae hyn yn cynnwys 4 bys fesul lefel, dros 6 lefel.

- Mae unrhyw beth mwy na hyn yn atal defnyddwyr rhag gallu darllen yr arwyddion yn hawdd.

- Rydym ni'n argymell cyfeirio at ardaloedd allweddol y byddai ymwelwyr efallai'n dymuno dod o hyd iddynt. Mae cynnwys gormod o wybodaeth ar arwyddion cyfeirio yn gallu eu gwneud nhw'n anodd eu dilyn.

- Rydym ni'n argymell cynnwys amseroedd cerdded neu bellteroedd ar fysedd i roi rhagor o wybodaeth i'r defnyddiwr am ba mor bell y mae'n rhaid iddyn nhw deithio. Fel arfer, bydd y rhain wedi'u rhestru fel a ganlyn:
1) Pellter mewn milltiroedd
2) Pellter mewn metrau
3) Amcangyfrif o amser cerdded mewn munudau


- I ategu arwyddion cyfeirio, yr ydym ni'n argymell gosod arwyddion totem sy'n dangos y ffordd a all gynnwys mapiau i gael gwybodaeth fanylach, yn ogystal â byrddau gwybodaeth ar gyfer digwyddiadau tymhorol. Os nad ydych chi'n credu bod angen llawer o waith ailwampio ar eich arwyddion cyfeirio chi, gallwn ni edrych ar wahanol fathau o arwyddion i wella profiad ymwelwyr.


Unit 6, Bridge Works, Kingston Road, Leatherhead, Surrey KT22 7SU Tel +44 (0)1372 363808 Fax +44(0)1372 363801 email: sales@dmasigns.co.uk
© DMA Signs Limited

# Map o Landudno

## Plotiau cyrchfannau arfaethedig

Drafft cyntaf yw hwn i helpu i nodi cyrchfannau arfaethedig i gael eu cynnwys ar yr arwyddion cyfeirio.





© Bluesky International Ltd and Getmapping plc 2022
Use of this data is subject to terms and conditions.

# Map o Llanrwst

## Plotiau cyrchfannau arfaethedig


Drafft cyntaf yw hwn i helpu i nodi cyrchfannau arfaethedig i gael eu cynnwys ar yr arwyddion cyfeirio.



# Map o Colwyn Bay

## Plotiau cyrchfannau arfaethedig

Drafft cyntaf yw hwn i helpu i nodi cyrchfannau arfaethedig i gael eu cynnwys ar yr arwyddion cyfeirio.






© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000809654
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata cyfyngedig Tŷ Gwybodaeth ar Lywodraeth Leol 2024 AC0000809654
© Bluesky International Ltd and Getmapping plc 2022
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000809654
Use of this data is subject to terms and conditions.
© Local Government Information House Limited copyright and database rights 2024 AC0000809654

# Map o Abergele

## Plotiau cyrchfannau arfaethedig

Drafft cyntaf yw hwn i helpu i nodi cyrchfannau arfaethedig i gael eu cynnwys ar yr arwyddion cyfeirio.





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000809654
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata cyfyngedig Ty Gwybodaeth ar Lywodraeth Leol 2024 AC0000809654
© Bluesky International Ltd and Getmapping plc 2022
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000809654
Use of this data is subject to terms and conditions.
© Local Government Information House Limited copyright and database rights 2024 AC0000809654